OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 2

### CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Penderfyniadau awdurdodau lleol ar yr angen am gynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc*

**Hysbysiad o benderfyniad o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 nad oes angen cynllun**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn penderfynu o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 nad oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r person ifanc am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad a grybwyllir ym mharagraff (2), yn brydlon ac mewn unrhyw achos cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cydsyniodd y person ifanc i'r penderfyniad o dan adran 13(1) o Ddeddf 2018 gael ei wneud.

(4) Nid oes angen i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

(5) Wrth roi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol hefyd roi i'r person ifanc—

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;

(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol o dan adran 9 o Ddeddf 2018 ar gyfer darparu i bobl wybodaeth a chyngor ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan Ran 2 o'r Ddeddf honno;

(c) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018;

(d) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018;

(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg o dan adran 70 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.